

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**  
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddLJC@senedd.cymru](mailto:SeneddLJC@senedd.cymru)

4 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Diolch ichi am eich llythyr ar 23 Hydref ynglŷn â'n penderfyniad i beidio â chyflwyno cynnig yn ymwneud â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Trawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020.

Y llynedd, ymrwymais y byddai'r llywodraeth yn mynd y tu hwnt i ofynion Rheolau Sefydlog ac yn cyflwyno cynigion yn rheolaidd ar gyfer cynnal dadleuon mewn perthynas â Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30A. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym wedi trefnu dadleuon oni bai bod rheswm da wedi bod dros beidio â gwneud hynny. Un enghraifft o beidio â threfnu dadl oedd y Rheoliadau uchod, nad oeddent yn rhai dadleuol o safbwynt polisi. Yn yr achos penodol hwn, roedd y newidiadau'n dechnegol eu natur, ac nid oedd gwahaniaeth mewn polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Daeth i'r amlwg mai ychydig iawn o awydd sydd am ddadl fanwl yn y siambr ar gyfer mesurau sydd fel arfer yn dechnegol eu natur. O ganlyniad, a hefyd oherwydd bod amser y cyfarfod llawn yn brin, nid ydym bellach yn bwriadu cyflwyno cynigion o'r fath ar gyfer dadl.

Fe fyddwn yn ceisio cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog a gosod Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol pan fo angen. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno cynnig y llywodraeth os yw'n briodol (ee ar gyfer prif faterion neu faterion newydd a dadleuol o bosib). Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i wneud penderfyniadau o'r fath. Wrth gwrs, bydd croeso i unrhyw aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig yn ceisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth berthnasol mewn offeryn statudol perthnasol.

Cofion gorau

**MARK DRAKEFORD**